Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Penfro
## Crynodeb Archwilio 2021



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Penfro.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019. Mae'r Crynodeb Archwilio hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Medi 2019 a mis Mawrth 2022. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Ddim yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp 21
- Grŵp Annibynnol 13
- Ceidwadwyr 11
- Llafur 7
- Plaid Cymru 6
- Democratiaid Rhyddfrydol 1
- Plaid Annibyniaeth y DU 1

Gwariodd y Cyngor £255.4 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, yr wythfed gwariant uchaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru.

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel y gost a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ac ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £62.6 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[2]. Mae hyn yn cyfateb i 24.5% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, sef yr 11fed ganran uchaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru[3].

Mae gan y Cyngor 4 allan o 71 o ardaloedd yr ystyrir eu bod ymysg y 10% o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru, sef y 12fed uchaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru[4].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Penfro yn cynyddu 3.2% rhwng 2020 a 2040 o 125,650 i 129,658, gan gynnwys gostyngiad o 11.6% yn nifer y plant, gostyngiad o 6% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 32.5% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[5].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

- **Gwelliant parhaus**

  Bu'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu'n briodol.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Ystyr cronfeydd ariannol defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw pan na ddiogelir y diben gan y gyfraith. Hwn yw cyfanswm y gronfa gyffredinol, y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau yr ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas cymhwyswyd.

[3] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru.

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru

Rydym yn parhau i gydnabod y pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy’n ceisio lleihau’r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw’r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Crynhoir ein canfyddiadau a’n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Penfro

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2019-20:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 9 Hydref 2020, 24 diwrnod ar ôl y dyddiad cau statudol, sef 15 Medi 2020. Roedd yr oedi o ganlyniad i effaith y pandemig ac amseriad cyfarfod nesaf y Cyngor a oedd ar gael i gymeradwyo'r cyfrifon. Er gwaethaf yr oedi hwn, roedd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyhoeddi'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu ac Adroddiad Naratif Blynyddol y Cyngor yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau perthnasol. Roeddent yn gyson â’r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â’n gwybodaeth am y Cyngor hefyd..
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 25 Gorffennaf 2020 yn dda ar y cyfan.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Cyngor yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2020.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Nid oedd ein gwaith yn nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2019-20 wedi'i gwblhau ar 9 Hydref 2020.
- Mae ffeithiau a ffigurau allweddol o ddatganiadau ariannol 2019-20 ar gael ar ein gwefan.

### Ar gyfer 2020-21:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 22 Mawrth 2022, bedwar mis ar ôl y dyddiad cau statudol diwygiedig, sef 30 Tachwedd 2021. Roedd yr oedi o ganlyniad i effaith y pandemig, clirio a chyhoeddi'r Adroddiad Budd Cyhoeddus (y cyfeirir ato isod) ac ymateb y Cyngor iddo. Er gwaethaf yr oedi, roedd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyhoeddi'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
- Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon yn cynnwys pwyslais ar fater yn tynnu sylw'r darllenydd at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â'r taliad diswyddo o £95,000 i'r cyn Brif Weithredwr.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a gyda'n gwybodaeth am y Cyngor.
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 6 Gorffennaf 2021 yn dda ar y cyfan.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Cyngor yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Mawrth 2022.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Nid oedd ein gwaith yn nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi'i gwblhau ar 22 Mawrth 2022.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a phwyslais ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod, ceir crynodeb o rywfaint o’r gwaith yr ydym wedi’i wneud mewn ymateb i’r pandemig ar draws nifer o sectorau y mae llawer ohono yn berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus drwy rannu yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi myfyrdod a chyfnewid arferion. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o’r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom gyhoeddi hefyd rai o arsylwadau yr Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad yn dilyn hyn ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi hefyd ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 a'i ddyletswyddau sy'n weddill yn 2020-21, fel yr arbedwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2019-20 a 2020-21, gwnaethom archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yn ein hadroddiad ar Gyngor Sir Penfro ym mis Mawrth 2020, daethom i'r casgliad bod **y Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n wynebu heriau sylweddol i fodloni'r bwlch ariannu disgwyliedig wrth symud ymlaen.** Yn ein hadroddiad dilynol ym mis Awst 2021, daethom i'r casgliad bod: **y Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n parhau i wynebu heriau sylweddol i fodloni'r bwlch ariannu disgwyliedig yn y dyfodol**.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ganfyddiadau ymarfer paru data diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru. Gwnaeth yr ymarfer helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y 22 awdurdod unedol, i nodi twyll a gordaliadau gwerth £8 miliwn. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan. Mae'r Fenter yn parhau i gael ei datblygu ac yn ymarfer y Fenter sydd ar y gweill (2020-2022), bydd gan awdurdodau lleol fynediad at ymarferion paru a gynlluniwyd i helpu i nodi ceisiadau twyllodrus posibl am grantiau cymorth busnes COVID-19.

## Cynllunio ar gyfer adfer

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi cynllunio adferiad. Yng Nghyngor Sir Penfro, gwnaethom y gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu adborth amser real pan fo hynny'n briodol.

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Adfywio (Chwefror 2020)

Roedd yr archwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2019-20 yn ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i 'fuddsoddi mewn chwe phrosiect adfywio allweddol'. Daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor ysgogiad newydd ar gyfer adfywio economaidd ond mae angen iddo ystyried sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Adolygiad o'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Mawrth 2020)

Yn ystod 2019 cynhaliwyd adolygiad gennym i geisio sicrwydd bod Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn cefnogi'r Cyngor yn effeithiol i gyflawni ei amcanion. Gwelsom fod y rhan fwyaf o reolwyr yn fodlon â'r gefnogaeth gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, ond bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a monitro perfformiad gwasanaethau. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Adolygiad Dilynol o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu (Tachwedd 2021)

Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd adroddiad gennym o'r enw Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol - Cyngor Sir Penfro. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys deg cynnig ar gyfer gwella. Yn ein hadolygiad dilynol, canolbwyntiwyd ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd. Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad fod **y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ond bod angen iddo gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol**. Gwnaethom gyhoeddi cynigion pellach ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn.

## Adroddiad Budd y Cyhoedd – Diffygion ym maes Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau Cyngor Sir Penfro mewn perthynas ag ymadawiad ei gyn Brif Weithredwr gyda Thaliad Terfynu (Ionawr 2022)

Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er budd y cyhoedd ddiffygion sylweddol o ran llywodraethu a gwneud penderfyniadau o ran y ffordd y gwnaeth Cyngor Sir Penfro ymdrin â thaliad ymadael a wnaed i'r Prif Weithredwr. Mae'r materion a ganfuwyd yn yr adroddiad yn cynnwys methiant i fynd i'r afael ag anawsterau yn y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a'u datrys, diystyru cyngor cyfreithiol allanol, methu â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gwneud penderfyniadau gwael a diffyg tryloywder.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Ym mis Ionawr 2021, ysgrifennodd Estyn at Brif Weithredwr y Cyngor yn amlinellu canlyniad ei adolygiad o waith Cyngor Sir Penfro wrth gefnogi eu cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020. Mae adroddiad cenedlaethol Estyn, 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau mewn ymateb i COVID-19 – Adroddiad diweddaru o fis Mehefin i fis Tachwedd 2020', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r adroddiad ar wefan Estyn. Cynhyrchodd AGC 'Llythyr adolygu perfformiad blynyddol awdurdodau lleol 2019/20: Cyngor Sir Penfro'. Gellir gweld y llythyr hwn ar wefan AGC. Cynhaliodd AGC hefyd Arolygiad Gwerthuso Perfformiad 2020-21 yng Ngwasanaeth Oedolion a Phlant Cyngor Sir Penfro. Anfonwyd llythyr at y Cyngor ar ei ganfyddiadau ym mis Tachwedd 2021.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol bob blwyddyn i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rydym wedi cyhoeddi’r adroddiadau canlynol ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf:

## Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol (Medi 2019)

Ystyriwyd effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Er bod cynghorau'n atal y galw am ofal cymdeithasol, canfuom nad yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson. Mae'r adroddiad ar ein gwefan.

## Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Hydref 2019)

Gwnaethom arolygu sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu; edrych ar eu haelodaeth, cylch gorchwyl, amlder a phwyslais cyfarfodydd, aliniad â phartneriaethau, adnoddau a threfniadau craffu eraill. Daethom i'r casgliad nad yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn debygol o wireddu eu potensial oni bai eu bod yn cael rhyddid i weithio'n fwy hyblyg a meddwl a gweithredu'n wahanol. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Tachwedd 2019)

Buom yn archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael eu cyflwyno a'u cyflawni. Gwelsom fod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn cael eu siomi gan system anghyson, gymhleth a darniog. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Cysgu Allan yng Nghymru – Problem Pawb; Cyfrifoldeb i Neb (Gorffennaf 2020)

Edrychwyd ar ba mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i fater cysgu allan. Yn gyffredinol, canfuom fod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yn y gorffennol. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Deddfu Gwell (Medi 2020)

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar bum adroddiad a gyhoeddwyd rhwng 2019 a heddiw yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o weithredu deddfwriaeth newydd. Mae gweithredu'n dasg gymhleth y mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd ei hystyried yn llawn pryd bynnag y byddant yn cyflwyno ac yn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'r papur yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth weithredu eu cyfrifoldebau newydd. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (Hydref 2020)

Mae cynghorau wedi cynnal gweithgarwch masnachol ers amser maith, ac mae llawer o gynghorau'n archwilio cyfleoedd masnachol ychwanegol i liniaru'r pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu. Mae ein hadroddiad wedi'i dargedu'n benodol at helpu aelodau etholedig ac uwch swyddogion i archwilio a barnu'r effaith bosibl ar eu sefydliadau wrth ystyried a ddylid masnacheiddio ai peidio. Bydd hefyd yn helpu cynghorau i ddangos pa mor dda y maen nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau gwerth am arian. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant ac yn cyfyngu ar wasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd ganddynt i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn ydynt. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub y cyfle i adnewyddu, ail-werthuso ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Gwnaeth awdurdodau lleol flaenoriaethu adfywio canol trefi rhwng 1950 a 1980, gan greu mannau manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau defnyddwyr sy'n newid a datblygiadau technolegol yn cael effaith andwyol bellach ar lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, ac mae un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru yn wag bellach, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau lleol gorau, mae angen cysoni ac integreiddio polisïau a'r broses o gydweithio, gan flaenoriaethu adnoddau ar gyfer canol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22

Buom hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Pandemig COVID-19 sy'n parhau i fod y risg a'r mater mwyaf sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22. Rydym wedi llunio ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Asesu sicrwydd a risg, gan gynnwys pwyslais ar y canlynol:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau i leihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Y sefyllfa ariannol
  - Rheoli Perfformiad
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau wrth gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.
- Archwiliad adrodd am welliant

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.